

## Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg

31 Hydref 2023

1 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth y gofynwyd amdani i Gomisiynydd y Gymraeg ynglyn â gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yr HCPC rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.

### 2 Cefndir

2.1 Lansiodd ein Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn 2011. Ers hynny, rydym wedi cwblhau unarddeg adroddiad ar y Cynllun ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

2.2 Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae ein Cynllun yn nodi sut rydym yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.3 Yn ystod 2022-2023, rydym wedi parhau i weithredu darpariaethau ein Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys:

- ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth barhau i ddatblygu ein gwefan,
- asesu diweddariadau i bolisiâu yng ngoleuni ein Cynllun Iaith Gymraeg,
- codi ymwybyddiaeth ymhlith ein staff o'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun trwy gyfathrebu mewnol datblygu modiwlau e-ddysgu newydd ar gyfer aelodau staff.

2.4 Rydym yn gweithio nawr ar weithredu Safonau'r Gymraeg a fydd yn disodli'r Cynllun ac yn dod yn weithredol o 6 Rhagfyr 2023.

2.5 Mae terfyn amser hirach ar gyfer safon 6 a safon 20, a bydd y rhain yn dod yn weithredol o 6 Mehefin 2024.

| Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg   | Ymateb HCPC (mae'r holl ffigurau'n ymwneud â'r cyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2023)   |
|--|--|
| <p><b>Asesiad effaith polisi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Nifer a chanran y polisiâu (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau a fyddai gan y polisi ar ddefnydd o'r Gymraeg.</li> <li>○ Enghraifft o asesiad y bernir iddo <b>gael</b> effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg a manylion sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad.</li> </ul> | <p>4 (100%). Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o bolisiâu arwyddocaol megis ein Safonau Ymddygiad, Perfformiad a Moeseg, a'n hymgyngoriad ynglŷn â ffioedd.</p> <p>Rhaid i bob prosiect a gynhelir gynnwys asesiad effaith sy'n gofyn, "sut gallai'r prosiect hwn roi ein hymrwymadau dan y Cynllun Iaith Gymraeg ar waith?"</p> <p>Er bod rhaid i'n holl adolygiadau polisi gynnwys asesiad effaith, ni farnwyd bod unrhyw un o'r polisiâu hyn yn cael effaith ar ein hymrwymadau trwy ein Cynllun Iaith Gymraeg. Roedd y polisiâu a adolygwyd yn ystod y cyfnod yn effeithio'n gyffredinol ar y rhai sy'n cofrestru gyda'r HCPC ledled y Deyrnas Unedig (yn hytrach na rhai sy'n cofrestru yng Nghymru yn benodol) ac nid ar aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p> |
| <p><b>Cyhoeddiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd</li> <li><input type="checkbox"/> Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg</li> </ul>   | <p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd: 194. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safonau a chanllawiau = 43</li> <li>• Adroddiadau = 113</li> <li>• Polisi = 27</li> <li>• Deddfwriaeth = 16</li> </ul> <p>16</p> <p>Er bod ein holl gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd, nid yw pob un ohonynt yn ymwneud â chyflawni ein busnes cyhoeddus neu'n rhai sydd â'r cyhoedd yn gyffredinol yn brif gynulleidfa darged.</p>   |

|  |   |
|--|---|
|  | <p>Mae'r HCPC yn gweithredu polisi y we gyntaf ble byddwn yn blaenoriaethu creu cynnwys ar y we yn hytrach na chyhoeddiadau unigol. Golyga hyn fod diweddariadau i'n cynnwys yn fwy tebygol o ddigwydd ar draws y wefan nag o fewn cyhoeddiadau.</p> <p>Rydym yn cyhoeddi'n ddwyieithog, lle mae lefel debygol y diddordeb cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol.</p>   |
| <p><b>Cwynion</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd ynghylch ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru</li> <li>○ Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg ynghylch ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru</li> <li>○ Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg</li> <li>○ Eglurwch natur unrhyw gwynion a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg</li> </ul> | <p><b>70</b></p> <p><b>0</b></p> <p><b>0</b></p> <p>Dd/B</p>  |
| <p><b>Gwefan</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg</li> <li>○ Tystiolaeth sy'n ymwneud â gwelliannau neu gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan</li> <li>○ Tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod y cynnwys presennol, cynnwys gaiff ei ddiweddarau a</li> </ul>  | <p><b>5.74%</b> (heb gynnwys cynnwys deinamig, e.e. gwrandawiadau, newyddion, digwyddiadau, adnoddau neu ddogfennau).</p> <p><i>Mae ein gwefan yn parhau i roi'r gallu i'n cynnwys fod yn amlieithog, gan ganiatáu i ni ddatblygu cynnwys Cymraeg newydd yn yr un ffurf ag y byddem ar gyfer cynnwys Saesneg. Mae hyn yn golygu y gallwn barhau i ddatblygu ein cynnwys Cymraeg yn unol â'r ymrwymïadau yn ein Cynllun.</i></p> <p><i>Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein tudalennau Cymraeg yn rheolaidd i</i></p> |

|   |  |
|---|--|
| <p>chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg</p>   | <p><i>sicrhau bod y cynnwys yn gyfoes, yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun.</i></p> <p><i>Mae ein cynnwys ar y we yn cael ei reoli gan dîm sydd wedi derbyn hyfforddiant ar ein Cynllun Iaith Gymraeg.</i></p> <p><i>Ble bydd unrhyw gynnwys newydd ar gyfer y we yn cael ei ddatblygu fel rhan o brosiect mwy, bydd unrhyw effaith ar ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i nodi wrth roi cychwyn i'r prosiect neu yn yr asesiad effaith a gynhelir cyn iddo gael ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo gan ein llywodraethwyr.</i></p>  |
| <p><b>Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i <b>hyrwyddo</b> gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn y defnydd o'r gwasanaethau gan y cyhoedd.</li> <li>○ Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/darpar ddefnyddwyr)</li> </ul> | <p>Mae llofnodion e-bost aelodau staff yn cynnwys yr ymadrodd "Correspondence is welcome in English or Welsh / Gallwch ohebu yn Gymraeg neu Saesneg" er mwyn annog unigolion i gyfathrebu â'r HCPC yn Gymraeg.</p> <p>Mae tab 'Cymraeg' amlwg ar ein gwefan sy'n darparu gwybodaeth yn Gymraeg sydd yn berthnasol i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Rydym wedi dechrau gwaith ar weithredu safonau newydd a byddwn yn diweddarau ein Cynllun Iaith Gymraeg yng ngoleuni'r safonau newydd.</p> <p>Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein tudalennau Cymraeg yn rheolaidd i sicrhau bod y cynnwys yn gyfoes, yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun. Pan fyddwn wedi derbyn adborth ar ein Cynllun Iaith Gymraeg, ein tîm Cwynion ac Adborth sydd yn ymdrin â hynny a cheir dilyniant yn fewnol lle mae gwersi i'w dysgu.</p> |

|  |   |
|--|---|
| <p><b>Achosion Addasrwydd i Ymarfer</b></p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau lle roedd tyst yn dymuno siarad Cymraeg</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg</p> | <p>Gwnaethom gynnal 10 gwrandawriad addasrwydd i ymarfer o sylwedd yn ystod y cyfnod hwn – cafodd 9 o'r rhain eu cynnal o bell a chynhaliwyd 1 wyneb yn wyneb mewn lleoliad yng Nghaerdydd.</p> <p>0</p> <p>0</p> <p>0</p>  |
| <p><b>Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith</b></p> <p><input type="checkbox"/> Nifer a chanran staff y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.</p>  | <p>Cwblhaodd 86% o'r staff y modiwl Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.</p>   |
| <p><b>Hunanreoleiddio</b></p> <p><input checked="" type="radio"/> Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol.</p>  | <p>Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom lansio ein modiwl hyfforddiant newydd i staff ar yr iaith Gymraeg. Cyn hynny, roedd ein hyfforddiant ar ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn ein rhaglen gynefino gorfforaethol. Mae'r hyfforddiant newydd yn fodiwl annibynnol sy'n cynnwys adrannau am hanes y Gymraeg ac arwyddocâd diwylliannol y Gymraeg yng Nghymru ac mae'n orfodol i'r holl staff.</p> <p>Gan fod ein dogfennau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynglŷn â'n Cynllun Iaith Gymraeg, caiff prosiectau newydd eu hasesu yn ôl y meini prawf hyn yn y camau datblygu a gweithredu.</p> |